Hapa Zome

Trosolwg

Term Japaneaidd yw Hapa Zome, sy'n golygu 'llifyn dail'. Mae'r gweithgaredd celf hwn yn cynnig cyfle i ddathlu natur dymhorol a chyflwyno dulliau syml o ddefnyddio offer.



Gweithgareddau

Casglwch amrywiaeth o ddail, aeron a blodau tymhorol.

Gosodwch y deunyddiau naturiol ar un ochr i sgwâr o ffabrig, a phlygwch hanner arall y ffabrig drostynt.

Ar arwyneb caled, defnyddiwch ordd rwber i forthwylio pob rhan o'r ffabrig nes y gallwch weld y llifyn naturiol yn dod drwyddo.

Agorwch y ffabrig a blygwyd, a thynnwch y dail/aeron/blodau oddi arno er mwyn gweld yr imprint naturiol sydd wedi'i greu.

Defnyddiwch beg i hongian y ffabrig i sychu.

Offer

- Sawl gordd rwber (gallech ddefnyddio rholbren neu ddarn o graig)
- Ffabrig cotwm, e.e. calico, cynfas wen neu fwslin
- Amrywiaeth o ddail, aeron a blodau

Ambell gyngor am ddiogelwch

Sicrhewch fod gennych fan clir i'w ddefnyddio. Defnyddiwch ddwy law ar yr ordd, neu rhowch un llaw ar yr offeryn a'r llaw arall y tu ôl i'ch cefn. Yn lle swingio'r ordd, tapiwch y ffabrig yn ysgafn sawl gwaith gan ddefnyddio'ch ar ddwrn yn unig.

Deilliannau dysgu

- Dysgu sut mae defnyddio offeryn yn ddiogel, a meithrin hyder ac ymdeimlad o gyflawni ac o falchder yn y deilliant.
- Hybu datblygiad sgiliau echddygol manwl a bras. Archwilio deunyddiau naturiol drwy gelf.

Symud y dysgu yn ei flaen

Archwiliwch batrymau cymesur syml.

Archwiliwch wahanol briodweddau dail. Nid yw dail llyfn, cwyraidd na dail brown yn yr hydref yn rhyddhau eu llifyn. Beth yw'r rheswm am hynny?